

@ eich llyfrgell chi

**Rhaglen Strategol Gychwynnol
Datblygu Llyfrgelloedd 2005-2007**

@ your library

**An Initial Strategic Library Development
Programme 2005-2007**

Cynnwys

1. Rhagarweiniad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon
2. Crynodeb Gweithredol
3. Nodi Anghenion Defnyddwyr a Rhai Nad Ydynt yn Ddefnyddwyr Presennol
4. Ail-asesu Rôl Llyfrgelloedd yng Nghymru
5. Datblygu'r Cynllun Gweithredu drwy Bartneriaeth
6. Gwerthuso Cynnydd
7. Geirfa

Contents

1. Foreword by the Minister for Culture, Welsh Language and Sport
2. Executive Summary
3. Identifying the Needs of Users and Current Non-Users
4. Re-assessing the Role of Libraries in Wales
5. Developing the Action Plan through Partnership
6. Evaluating Progress
7. Glossary

Rhagair



“Nid byd, byd heb wybodaeth”

Y mae gan Gymru, fel cenedl, hunaniaeth ddiwylliannol gref a ffyniannus. Y mae llyfrgelloedd lleol eisoes yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o fynegi a chyfoethogi'r cryfder hwn. Darperir gwasanaeth cymunedol holl bwysig ganddynt drwy gyfrwng gweithlu medrus ac ymroddedig. Y mae'r fenter @ **Eich Llyfrgell Chi** yn fuddsoddiad newydd sbon gan Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu fframwaith strategol er

mwyn hybu gwasanaethau llyfrgell dwyieithog i ddiwallu anghenion yn y 21ain ganrif. Bydd cam cyntaf y fenter, rhwng 2005-2007, yn nodi'r anghenion, yn sefydlu partneriaethau, yn datblygu gwasanaethau ar-lein newydd ac yn estyn allan at ddefnyddwyr newydd drwy adeiladu ar gryfderau traddodiadol yr adnodd cymunedol gwerthfawr hwn.

Yr wyf yn disgwyl i Gymru arwain ar ddatblygu polisiau arloesol fydd yn agor y drysau i adnoddau llyfrgell y genedl, drwy ddefnyddio manteision y dechnoleg ddiweddaraf. Drwy fod yn cael eu hyrwyddo gan ymgyrch genedlaethol, y mae gan lyfrgelloedd Cymru gyfle na chawsant erioed o'r blaen i weithio mewn partneriaeth i estyn allan i'w cymunedau tra'n cyfrannu at gyflawni ein nodau a'n amcanion strategol. Yr wyf eisoes wedi gweld brwdfrydedd y staff mewn llyfrgelloedd ynghylch ecsbloetio technoleg fodern i gyrraedd holl aelodau eu cymunedau – ariannwyd dros 100 o brosiectau gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod rhaglen ddatblygu baratoawl yn 2004. Yr oedd nifer o'r prosiectau hyn yn seiliedig ar bartneriaethau – dysgu gydol oes, partneriaethau cymdeithasol, rhai diwylliannol gyda gwasanaethau amgueddfa ac archifau, i gyd yn ceisio ehangu effaith eu gweithgareddau a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Bydd @ **Eich Llyfrgell Chi** yn cael ei rheoli gan CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, drwy weithio gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru, awdurdodau lleol, colegau, sefydliadau addysg uwch, ysgolion, grwpiau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus cenedlaethol. Fel Cadeirydd Cyngor Ymgynghorol CyMAL, hoffwn annog pawb i weithio mewn partneriaeth i ailddiffinio rôl ein llyfrgelloedd yn y ganrif newydd hon, a sicrhau bod eu gwasanaethau yn cyfrannu'n llawn at ddatblygu cymunedau lleol llwyddiannus a llawn bywyd.

Alun Pugh AC

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Foreword



'...Libraries gave us power' (Manic Street Preachers, 1996)

Wales, as a nation, has a strong and thriving cultural identity. Local libraries already play an important role in expressing and enriching that strength. They maintain a vital community service managed by a skilled and dedicated workforce. The **@ Your Library Programme** is a major new investment by the Welsh Assembly Government to develop a strategic framework which will support bilingual library services fit for the needs of the 21st century. The first phase of the programme from 2005-2007 will identify the needs, establish the partnerships, develop new online services, and reach out to new users, building on the traditional strengths of a valued community resource.

I expect Wales to be a leader in developing innovative policies to open up access to the nation's library resources, using the benefits of new technology. Promoted through a national campaign, Welsh libraries now have an unprecedented opportunity to work in partnership to engage with their communities and contribute to the achievement of our strategic aims and objectives. I have already seen the enthusiasm of library staff to exploit modern technology to reach out to all members of their communities – over 100 projects were funded by the Welsh Assembly Government during a preparatory development programme in 2004. Many of these projects involved partnerships – for lifelong learning, social partnerships, cultural partnerships with museum and archive services, all aiming to increase the impact of activities and extend access to new audiences.

The **@ Your Library Programme** will be managed by CyMAL: Museums Archives and Libraries Wales, working with the National Library of Wales, Welsh local authorities, colleges, higher education institutions, schools, community organisations and national public services. As Chair of the CyMAL Advisory Council, I encourage everyone to work in partnership to re-define the role of our libraries in this new century and ensure that their services contribute fully to the development of successful and vibrant local communities.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun Pugh', with a long horizontal flourish underneath.

Alun Pugh AM

Minister for Culture, Welsh Language and Sport

2. Crynodeb Gweithredol

2.1 Y mae'r fenter @ Eich Llyfrgell Chi yn fuddsoddiad newydd sbon gan Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu fframwaith strategol fydd yn hybu gwasanaethau llyfrgell dwyieithog er mwyn diwallu anghenion y 21ain ganrif. Bydd cam cyntaf y fenter, rhwng 2005-2007, yn nodi'r anghenion, yn sefydlu partneriaethau, yn datblygu gwasanaethau ar-lein newydd ac yn estyn allan at ddefnyddwyr newydd drwy adeiladu ar gryfderau traddodiadol yr adnodd cymunedol gwerthfawr hwn.



2.2 Nodi anghenion defnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr:

Bydd @ Eich Llyfrgell Chi yn cefnogi gwasanaethau sy'n briodol i anghenion unigolion a chymunedau lleol. Bydd y cam cyntaf yn cynnwys asesiad o'r dystiolaeth a gasglwyd gan arolygon diweddar o ddefnyddwyr llyfrgelloedd a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr presennol. Bydd y gwaith o nodi amcanion strategol hefyd yn cael ei oleuo drwy ymgynghori'n gyson gyda chymunedau lleol a'r grwpiau awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gyflwyno strategaethau cymunedol.

2.3 Ail-ddiffinio rôl llyfrgelloedd yng Nghymru:

Dros y 100 mlynedd diwethaf, y mae rôl y llyfrgell rydd gyhoeddus wedi datblygu i gwrdd â gwahanol anghenion unigolion a chymunedau lleol. Cafwyd llyfrgelloedd eraill hefyd yn datblygu yng Nghymru, i gyd yn cyfrannu at fywyd y gymuned, addysg, iechyd a'r gymuned fusnes. Bydd @ Eich Llyfrgell Chi yn darparu cefnogaeth fel bod llyfrgelloedd yn gallu:


- hyrwyddo gwasanaethau llyfrgell i bawb yng Nghymru
- darparu mynediad am ddim i adnoddau llyfrgell yng Nghymru
- creu gwasanaeth llyfrgell ar-lein
- gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau gwell
- gwella sgiliau perthnasol y gweithlu.

2.4 Datblygu'r Cynllun Gweithredu drwy Bartneriaeth:

Bydd CyMAL yn cefnogi partneriaethau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddarparu gwasanaethau llyfrgell gwell. Bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio gyda CyMAL i sefydlu fframwaith datblygu strategol cenedlaethol. Gwahoddir cyrff cynrychioliadol i ymuno â Grŵp Llywio @ Eich Llyfrgell Chi. Bydd 4 o linyndau rhaglen, wedi eu rheoli gan reolwr prosiect llawn amser, ac i'w datblygu dros 2 flynedd -

2. Executive Summary

2.1 The **@ Your Library Programme** is a major new investment by the Welsh Assembly Government to develop a strategic framework which will support innovative bilingual library services. The first phase of the programme from 2005-2007 will identify the needs, establish the partnerships, develop new online services, and reach out to new users, building on the traditional strengths of a valued community resource.



2.2 Identifying the Needs of Users and Current Non-Users:

The **@ Your Library Programme** will support services appropriate for the needs of individuals and local communities. The initial phase will include an assessment of available evidence collected by recent library user and non-user surveys. The identification of strategic objectives will also be informed by regular consultations with local communities and local authority groups responsible for progressing community strategies.

2.3 Redefining the role of Welsh libraries:

Over the last 100 years, the role of the free public library has developed to meet the changing needs of individuals and local communities. Other libraries also developed in Wales, all contributing to community, education, health and business life. The **@ Your Library Programme** will provide support to enable libraries to:

- promote library services to everyone in Wales
- provide free access to Welsh library resources
- create the online library service
- work in partnerships to deliver better services
- improve relevant workforce skills.

2.4 Developing the Action Plan through Partnership:

CyMAL will support partnerships at a national, regional and local level to deliver improved library services. The National Library of Wales (NLW) and the Welsh Local Government Association (WLGA) will work with CyMAL to establish a national strategic development framework. Representative bodies will be invited to join the **@ Your Library Programme** Steering Group. There will be 4 programme strands, managed by a full time project manager, and developed over 2 years -

- creu system darganfod adnoddau ar-lein genedlaethol, er mwyn gwella'r mynediad at adnoddau llyfrgell yng Nghymru
- datblygu cynulleidfaoedd newydd drwy weithgareddau datblygu'r darllenydd, a darparu gwybodaeth newydd yn y llyfrgell gyhoeddus ar-lein newydd
- hyrwyddo gwasanaethau llyfrgell drwy gynllun marchnata cenedlaethol
- datblygu cyfleoedd i wella sgiliau'r gweithlu.

2.5 Y Broses a'r Amserlen:

Bydd y fenter yn recriwtio rheolwr prosiect i ofalu am y cam cychwynnol (2005-2007). Bydd CyMAL yn trefnu cyfarfod o'r Grŵp Llywio @ **Eich Llyfrgell Chi** erbyn Mawrth 2005 i gytuno ar gylich gorchwyl y Grŵp, Cynllun Cychwynnol y Prosiect a'r Cynllun Rheoli Risg. Bydd y Grŵp Llywio yn cyfarfod yn chwarterol tan fis Mawrth 2007 gan gynhyrchu adroddiadau cynnydd cyn bob cyfarfod.

2.6 Cyllidebau:

Y cyllideb ddangosol ar gyfer y cyfnod 2005-07 yw £2m.

2.7 Gwerthuso Cynnydd:

Bydd y fenter @ **Eich Llyfrgell Chi** yn monitro cynnydd yn rheolaidd i sicrhau bod gwasanaethau llyfrgell yn cyflawni'r safonau gorau ac yn darparu eu gwasanaethau yn gyson. Defnyddir y Safonau ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i fonitro perfformiad unigol gan y gwasanaethau llyfrgell, a bydd dadansoddiad o effaith y gweithgareddau o dan y fenter yn cael ei gomisiynu yn 2007.

- creating a national online resource discovery system, opening up access to Welsh library resources
- developing new audiences through reader development activities and new information content for the online public library
- promoting library services through a national marketing plan
- developing opportunities to improve workforce skills.

2.5 Process and Timescale:

The initiative will recruit a project manager to manage the initial phase (2005-2007). CyMAL will convene the **@ Your Library Programme** Steering Group by March 2005 to agree the terms of reference for the Group, the initial Project Plan and Risk Management Plan. The Steering Group will meet quarterly until March 2007 with progress reports produced prior to each meeting.

2.6 Budgets:

The indicative budget for the phase 2005-07 is £2m.

2.7 Evaluating Progress:

The **@ Your Library Programme** will regularly monitor progress to ensure that library services achieve high quality and consistent service delivery. The revised Welsh Public Library Standards will be used to monitor individual performance by library services and an impact analysis for activities progressed by the initiative will be commissioned in 2007.

3. Nodi Anghenion Defnyddwyr a Rhai Nad Ydynt yn Ddefnyddwyr Presennol

- **Asesu'r dystiolaeth bresennol**

3.1 Bydd @ **Eich Llyfrgell Chi** yn cefnogi gwasanaethau sy'n briodol i anghenion unigolion a chymunedau lleol. Bydd y cam cychwynnol yn cynnwys asesiad o'r dystiolaeth bresennol a enillwyd o arolygon o ddefnyddwyr llyfrgell a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr presennol. Bydd y rhain yn cynnwys:



- canlyniadau ar gyfer awdurdodau lleol unigol o CIPFA PLUS
- gwerthusiad o gynllun arloesol Linc y Gogledd yn ystod 2004
- asesiad o anghenion defnyddwyr gan wasanaethau llyfrgell unigol
- gwerthusiad o effaith y fenter Rhwydwaith y Bobl gan Sefydliad Tavistock, a gomisiynwyd gan Gronfa'r Loteri Fawr
- prosiectau unigol, er enghraifft Rhwydwaith Dysgu y Bobl yng Nghonwy a Sir Ddinbych
- gwerthusiad o'r Prosiect ROUTES sy'n cael ei gyllido gan y loteri, a fu'n treialu gwasanaethau allgymorth gan lyfrgelloedd cyhoeddus mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Abertawe a Wrecsam.

Astudiaeth Achos: LINC y Gogledd – cyntaf yn y DU i hybu dysgu gydol oes

Yn 2002, aeth y gwasanaethau llyfrgell ym Mhrifysgol Cymru Bangor a'r tri awdurdod lleol yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn ati i lansio menter gydweithredol, LINC y Gogledd, er mwyn rhannu adnoddau llyfrgell. Y mae'r fenter gydweithredol arloesol hon yn honni mai dyma'r cynllun benthyca cyfnewid di-dâl cyntaf yn y DU rhwng llyfrgelloedd cyhoeddus a llyfrgell prifysgol. Yn benodol, y mae'n rhoi hawliau benthyca di-dâl i lyfrgell y brifysgol i unrhyw breswylydd yn y tri awdurdod lleol. Yn Hydref 2004, ehangwyd partneriaeth LINC y Gogledd i gynnwys tri choleg addysg bellach sef Coleg Menai, Coleg Meirion-Dwyfor a Choleg Llandrillo.

Y mae cydweithrediad rhwng y gwahanol fathau o lyfrgelloedd, ac annog pobl i gymryd rhan mewn dysgu yn brif nodau gan CyMAL. Fel rhan o'i Gynllun Grant Datblygu Llyfrgelloedd 2004-2005, y mae CyMAL wedi cyllido:

- menter farchnata i gynyddu'r nifer o bobl a allai elwa o'r gwasanaeth arloesol hwn
- gwelliannau i'r wefan
- gwerthusiad o LINC y Gogledd a phartneriaethau llyfrgell cydweithredol rhanbarthol eraill ar draws Cymru ac mewn gwledydd eraill drwy'r byd.

3. Identifying the Needs of Users and Current Non-Users

- **Assessing existing evidence**

3.1 The **@ Your Library Programme** will support services appropriate for the needs of individuals and local communities. The initial phase will include an assessment of available evidence of recent library user and library non-user surveys. These include:



- results for individual local authorities from CIPFA PLUS
- an evaluation of the innovative LINC y Gogledd scheme during 2004
- user needs assessments by individual library services
- an evaluation of the impact of the People's Network initiative by the Tavistock Institute, commissioned by the Big Lottery Fund
- individual projects, for example the People's Network for Learning in Conwy and Denbighshire
- an evaluation of the lottery-funded ROUTES Project which piloted outreach services by public libraries in areas of social deprivation in Blaenau Gwent, Caerphilly, Swansea and Wrexham.

Case Study: LINC y Gogledd - UK first to promote lifelong learning

The library services of the University of Wales Bangor and the three local authorities of Conwy, Gwynedd and Anglesey launched a co-operative scheme, LINC y Gogledd, in 2002 to share library resources. Including interlibrary loan, this innovative collaborative venture claims to be the UK's first free reciprocal borrowing scheme between public libraries and a university library. Significantly it provides free borrowing rights to the university library for any resident of the three local authorities. In October 2004 the LINC y Gogledd partnership was expanded to include three further education colleges, Coleg Menai, Coleg Meirion-Dwyfor and Coleg Llandrillo.

Co-operation between different types of libraries and encouraging people to engage in learning are key objectives for CyMAL. As part of its Libraries Development Grant Scheme 2004-05, CyMAL funded:

- a marketing initiative to increase the number of people benefiting from this innovative service
- improvements to the website
- an evaluation of *LINC y Gogledd* and other regional library co-operation partnerships across Wales and in other countries around the world.

- **Ymgynghori gyda chymunedau lleol**

3.2 Bydd @ **Eich Llyfrgell Chi** hefyd yn comisiynu ymchwil marchnad ac yn ymgynghori gyda defnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr er mwyn targedu adnoddau a gweithgareddau yn well mewn ardaloedd o ddatblygu helaeth. Bydd y dulliau ymgynghori a ddefnyddir i gyflwyno Strategaethau Cymunedol Lleol ac arolygon CIPFA PLUS hefyd yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n briodol. Bydd annog ymdeimlad o gyd-berchnogaeth o wasanaethau llyfrgell lleol gyda chymunedau lleol yn cael ei atgyfnerthu drwy ymgynghori'n rheolaidd gyda mudiadau a grwpiau cymunedol. Bydd y fenter yn sicrhau y clywir barn pobl Cymru am eu gwasanaethau llyfrgell drwy:

- gasglu a dadansoddi gwybodaeth o arolygon a gyflawnwyd gan wasanaethau llyfrgell yng Nghymru
- gwerthuso gwasanaethau newydd
- sicrhau bod y dystiolaeth a enillir o'r ymgynghoriadau lleol yn goleuo penderfyniadau polisi ar lefel genedlaethol
- nodi beth fydd unrhyw ofynion tebygol yn y dyfodol ar sail yr adborth a dderbynnir.

Astudiaeth Achos: Defnyddio technoleg i wella mynediad ar gyfer defnyddwyr sydd ag anableddau

Yn ystod 2004, bu'r gwasanaethau llyfrgell ledled Cymru yn defnyddio grantiau CyMAL i wella gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr anabl. Ymhlith y prosiectau yr oedd:

- gosod meddalwedd cyfrifiadurol gwell i droi testun ar y sgrîn yn llefaru y gellir gwrando arno drwy glustffonau neu unedau sain
- hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i bobl anabl er mwyn sicrhau eu bod yn ennill y fantais fwyaf o'r adnoddau a ddarperir
- gwella'r ffitiadau gan gynnwys sgriniau cyfrifiadurol mwy, dodrefn sydd modd ei addasu a chymhorthion darllen CCTV
- hyfforddiant i staff i helpu defnyddwyr sydd ag anableddau.

Nodi amcanion strategol

3.3 Y mae cyfle pwysig i lyfrgelloedd fedru cyfrannu at gyflawni'r amcanion strategol ehangach a nodir yn *Cymru: Gwlad Well* (2003). Bydd @ **Eich Llyfrgell Chi** yn cefnogi gweithgareddau cynllunio strategol gan wasanaethau llyfrgell, drwy weithio mewn partneriaeth, sy'n cwrdd â'r meini prawf allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol fel a nodir gan Lywodraeth y Cynulliad yn Creu'r Cysylltiadau (2004). Erbyn 2007, disgwylir i lyfrgelloedd Cymreig ddangos bod eu prosesau cynllunio yn ymateb i ofynion newydd a'u bod yn effeithiol gyda thargedau adnoddau i ddiwallu anghenion eu cymunedau.

- **Consulting local communities**

3.2 The **@ Your Library Programme** will also commission market research and consult with users and non users to better focus resources and activities in significant development areas. The consultation mechanisms established to progress local Community Strategies and CIPFA PLUS surveys will also be used where appropriate. Encouraging a sense of shared ownership of local library services with local communities will be reinforced through regular consultation with community groups and organisations. The initiative will ensure that the views of the people of Wales on library services are heard through:

- the collection and analysis of information from surveys carried out by Welsh library services
- the evaluation of new services
- ensuring that the evidence obtained from local consultations informs policy making activities on a national basis
- the identification of likely future requirements based on the feedback received.

Case Study: Using technology to improve access for physically disabled users and users with sensory deprivation

During 2004, library services across Wales used CyMAL grants to improve services for users with a range of physical and sensory disabilities. Projects included:

- the installation of improved computer software to convert text on the screen to speech listened to via headphones or speakers;
- ICT training for disabled people to ensure that they gain maximum benefit from the resources provided
- improved fittings including larger computer screens, adjustable furniture and CCTV reading aids
- staff training to assist users with sensory impairment.

- **Identifying strategic objectives**

3.3 There is a significant opportunity for libraries to contribute to the achievement of the broader national strategic objectives outlined in *Wales: A Better Country (2003)*. The **@ Your Library Programme** will support strategic planning activities by library services, working in partnership, which meet the key criteria to deliver effective public services outlined by the Welsh Assembly Government in *Making the Connections (2004)*. By 2007 Welsh libraries will be expected to demonstrate that their planning processes are responsive to changing requirements and are effective in targeting resources to meet the needs of their communities.

4. Ail-asesu Rôl Llyfrgelloedd yng Nghymru

Etifeddiaeth y Gorffennol

- 4.1** Y mae llyfrgelloedd Cymreig wedi eu gwerthfawrogi a'u diogelu erioed dros ganrifoedd lawer; fodd bynnag, ar un adeg yr oedd mynediad at lyfrgelloedd preifat, crefyddol neu ddysgedig wedi'i gyfyngu i nifer fach iawn o bobl gefnog neu addysgiedig. Cadwyd llawer o weddill trysorau'r diwylliant Cymreig mewn llyfrgelloedd y tu allan i Gymru. O ddechrau'r 19eg ganrif ymlaen, yn ysgîl cynnydd yn nifer y bobl lythrennog cafwyd mwy o alw am ddeunydd darllen ac awch am wybodaeth. Yn dilyn sefydlu coleg cyntaf Prifysgol Cymru (1872) a Llyfrgell Genedlaethol Cymru (1907) fel canolfannau dysgu ac ymchwil cenedlaethol, dechreuodd pobl alw'n gynyddol am gael mynediad di-dâl i lyfrgelloedd yn eu cymunedau eu hunain. Dangosodd cymdeithasau'r mwynwyr faint o werth a roddid ar lyfrgelloedd cymunedol lleol.
- 4.2** Yn dilyn sefydlu'r gwasanaeth llyfrgell rydd cyhoeddus cyntaf yng Nghaerdydd, daeth "prifysgol y stryd" yn wasanaeth cymunedol gwerthfawr ac uchel ei barch drwy Gymru. Yr oedd y mynediad prin at addysg ffurfiol ar y pryd yn pwysleisio pa mor bwysig ydoedd cynlluniau benthyca a gwasanaethau gwybodaeth di-dâl cymunedol, dan ofal cynyddol staff llyfrgell hyfforddedig. Dros y 100 mlynedd diwethaf, datblygodd rôl y llyfrgell rydd gyhoeddus er mwyn diwallu anghenion newidiol unigolion a chymunedau lleol. Sefydlwyd llyfrgelloedd eraill yng Nghymru hefyd, i gyd yn cyfrannu at fywyd y gymuned, addysg, iechyd a'r gymuned fusnes.
- 4.3** Mae adeiladau presennol llyfrgelloedd Cymru yn adlewyrchu gofynion pan eu hadeiladwyd. Bydd Rhaglen @ **Eich Llyfrgell** yn ymchwilio mewn i arfer gorau modern o ddarparu gwasanaethau ac yn archwilio sut mae safleoedd gwasanaethau llyfrgell presennol Cymru yn perfformio. Bydd adroddiad gwybodaeth yn cael ei gynhyrchu ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol.



Anghenion y Presennol

- **Hyrwyddo gwasanaethau llyfrgell i bawb yng Nghymru**
- 4.4** Yn y 21ain ganrif, y mae'r tirlun bellach yn dra gwahanol gan fod pobl yn disgwyl medru cael mynediad at adnoddau llyfrgell, cyfleoedd dysgu gydol oes a gwasanaethau gwybodaeth heb orfod o reidrwydd ymweld ag adeiladau llyfrgell. Y mae angen i wasanaethau fod ar gael mewn mannau eraill yn y gymuned, yn y cartref, yn y gweithlu neu'r ysgol ac yn gynyddol drwy gyfrifiaduron, y teledu a ffonau symudol. Heddiw, y mae adnoddau llyfrgell yn cynnwys deunyddiau aml-gyfrwng yn ogystal â llyfrau a phapurau newydd, gan ddarparu cwrpas defnydd eang o ddysgu gydol oes ac e-lywodraeth i ddarllen er mwyn pleser a gweithgareddau cymunedol.

4. Re-assessing the Role of Libraries in Wales

The Legacy of the Past

- 4.1** Welsh libraries have always been valued and protected over many centuries, however access to private, religious or learned libraries was limited to a very small number of wealthy or educated people. Many remaining treasures of Welsh culture were kept in libraries outside of Wales. From the early 19th century, greater levels of literacy increased the demand for reading material and encouraged a thirst for information. Following the establishment of the first college of the University of Wales (1872) and the National Library of Wales (1907) as national centres of learning and research, people increasingly demanded free access to libraries in their own communities. The miners' institutes demonstrated the worth of local community libraries.



- 4.2** With the establishment of the first Welsh free public library service in Cardiff, the 'street university' became a valued and respected community service across Wales. Limited access to the formal education service of the day emphasised the importance of free community-based lending schemes and information services, increasingly managed by trained library staff. Over the last 100 years, the role of the free public library has developed to meet the changing needs of individuals and local communities. Other libraries also developed in Wales, all contributing to community, education, health and business life.
- 4.3** Existing Welsh library buildings reflected the requirements of the day. The **@ Your Library Programme** will investigate modern best practice for service delivery and examine how current Welsh library service points measure up. An information report will be produced to aid future discussions.

The Needs of the Present

- **Promoting library services to everyone in Wales**
- 4.4** In the 21st century, there is now a very different landscape with an expectation that people should be able to access library resources, lifelong learning opportunities and information services without necessarily visiting library buildings. Services need to be available in other community locations, in the home, the workplace or school and delivered increasingly through computers, televisions and mobile phones. Library resources today include multi-media materials as well as books and newspapers with a wide scope of use from lifelong learning and e-government to reading for pleasure and community activities.

- 4.5** Yr her yn wynebu'r bartneriaeth rhwng CyMAL, y Llyfrgell Genedlaethol, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yng Nghymru yw sicrhau bod pawb yng Nghymru yn ymwybodol o fanteision defnyddio gwasanaethau llyfrgell, a ddarperir nid yn unig yn y llyfrgell ei hun ond hefyd drwy wasanaethau allgymorth a thrwy wasanaeth llyfrgell gyhoeddus ar-lein ar y We. Byddwn yn ystyried cyflwyno datganiadau hawl i ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell (wedi eu hwyluso gan gardiau smart electronig), fel rhan o gynlluniau newydd yn rhoi hawl i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Bydd cynllun marchnata cenedlaethol yn helpu'r llyfrgelloedd i hyrwyddo eu gwasanaethau i gynulleidfaedd presennol a newydd.

Astudiaeth Achos: Llyfrgell Tredegar Newydd

Agorwyd Adnodd Gwybodaeth 'White Rose' yn ystod 2004 i gymryd lle yr hen lyfrgell cyhoeddus yn Nhredeggar Newydd, ac mae eisioes yn boblogaidd gyda phlant ac oedolion lleol yn un o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r adnodd llyfrgell newydd yn ganolbwynt o Adain Gymunedol newydd a leolir drws nesaf i'r Ysgol Gynradd newydd. Wedi ei leoli yn yr Adain Gymunedol gyda'r llyfrgell mae partneriaid cymunedol pwysig eraill gan gynnwys Uned Diogelwch Cymunedol (Gwasanaeth Heddlu), Canolfan Byw'n Iach, Caffi Seiber, Swyddfa Cymunedau yn Gyntaf, Bwrdd Iechyd Lleol, Gofod Dysgu, a 'Canolfan Integreiddio Gofal Plant' a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r llyfrgell newydd bum gwaith yn fwy o faint na'r adeilad blaenorol gan gynnig digonedd o ofod a goleuni. Mae'r gwasanaeth llyfrgell hefyd yn gweithio'n agos gyda Amgueddfa 'Winding House' sydd gerllaw i'r Ysgol a datblygiad yr Adain Gymunedol. Mae blwch arddangos parhaol safonol wedi ei leoli yn y llyfrgell i hyrwyddo gwaith yr amgueddfa ac i annog diddordeb ehangach yn nhreftadaeth gyfoethog yr ardal.

- 4.6** Y mae annog llythrennedd a sgiliau sylfaenol eraill wedi bod yn rôl bwysig i lyfrgelloedd cyhoeddus erioed, a bydd **@ Eich Llyfrgell Chi** yn datblygu ymhellach yr ymarfer gorau a sefydlwyd drwy weithgareddau datblygu'r darlennydd o dan y loteri a thrwy'r prosiect Estyn Allan (2002-2005) a gyllidwyd gan Gyngor y Celfyddydau. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r gorau o'r ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yng Nghymru ar hyn o bryd i gynulleidfaedd newydd. Y mae hybu mwy o ddefnyddio llyfrgelloedd gan bobl ifanc yn flaenoriaeth arbennig, a bydd gweithgareddau arloesol lle ymgynghorir gyda'r bobl ifanc eu hunain ynghylch darparu gwasanaethau yn cael eu hannog a'u cefnogi.
- 4.7** Bydd cymorth effeithiol i ddysgwyr yn cael ei ddatblygu ymhellach, yn enwedig yng nghyd-destun y gofynion e-ddysgu newydd. Y mae technoleg yn ffactor hwyluso anferth ar gyfer gweithgareddau dysgu a bydd llyfrgelloedd yn cael eu hannog i ddarparu cymorth dysgu yn eu cymunedau a thrwy'r llyfrgell gyhoeddus ar-lein, fel rhan o Strategaeth E-Ddysgu Llywodraeth y Cynulliad. Erbyn 2003, yr oedd y rhaglen Rhwydwaith y Bobl gan y loteri wedi cynyddu nifer y cyfrifiaduron oedd yn darparu mynediad am ddim i'r We mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru o tua 200 i tua 2000. Bellach, y mae'r

- 4.5** The challenge for the partnership between CyMAL, the National Library of Wales, Welsh local authorities and other organisations is to ensure that everyone in Wales is aware of the benefits of using library services, delivered not only in the library but also via outreach services and via an Internet-based, online public library service. Entitlement statements for library services (facilitated by electronic smartcards) will be investigated, aligned to emerging public service entitlement schemes. A national marketing plan will help library services promote their services to existing and new audiences.

Case Study: New Tredegar Library

Opened during 2004, the White Rose Information Resource replaces the old public library in New Tredegar and is already a hit with local children and adults in one of Wales most deprived communities. This new library resource forms one of the centrepieces of a new Community Wing sited next to a new Primary School. The Community Wing will co-locate the library with other key community partners including a Community Safety Unit (Police Service), Healthy Living Centre, Cyber Café, Communities First Office, Local Health Board, Learning Space, and innovative 'Integrated Childcare Centre' funded by the Big Lottery. The new library is five times bigger than the previous building, offering a light open plan space. In addition the library service is working closely with the Winding House Museum, which is adjacent to the School and Community Wing development. A permanent display cabinet of museum standard is sited in the library to promote the work of the museum and encourage wider interest in the rich heritage of the area.

- 4.6** Encouraging literacy and other basic skills has always been an important role for public libraries, and the **@ Your Library Programme** will further develop the best practice for reader development activities established by the lottery and Arts Council Wales-funded project, *Estyn Allan: Branching Out* (2002-2005). This will include promoting the best of Welsh language and English writing in Wales to new audiences. Increasing library use by young people is a particular priority and innovative activities where young people themselves are consulted on service delivery will be encouraged and supported.
- 4.7** Effective support for learners will be further developed, particularly in the context of emerging e-learning requirements. Technology is a major facilitator for learning activities and libraries will be encouraged to provide learning support in their communities and via the online public library in support of the Welsh Assembly Government E-Learning Strategy. By 2003, the lottery-funded People's Network programme increased the number of computers providing free Internet access in Welsh public libraries from around 200 to 2000. These computers now form part of the Welsh Assembly Government high speed broadband network initiative. The **@ Your Library Programme** will promote free Internet access for learners in their communities and provide online access to library resources.

cyfrifiaduron hyn yn rhan o fenter rhwydwaith band eang cyflymdra uchel Llywodraeth y Cynulliad. Bydd @ **Eich Llyfrgell Chi** yn hybu mynediad di-dâl i'r We i ddysgwyr yn eu cymunedau ac yn darparu mynediad ar-lein i adnoddau llyfrgell.

- 4.8** Y mae nifer o gyfleoedd cyffrous i ddenu defnyddwyr newydd at wasanaethau llyfrgell ac i ymestyn y defnydd a wneir ohonynt gan ddefnyddwyr presennol. Y mae'r prosiectau a gyllidwyd yn 2004 yn cynnwys cwrs TGCh sylfaenol hynod llwyddiannus i breswylwyr hŷn mewn unedau llety cysgodol yn Rhondda Cynon Taf. Y mae meddalwedd arbenigol wedi gweddwid y defnydd a wneir o'r llyfrgelloedd yng Nghaerffili gan bobl ddall a rhai sy'n gweld yn rhannol. Bydd @ **Eich Llyfrgell Chi** yn cefnogi unrhyw lyfrgell i ehangu eu gweithgareddau mewn ffyrdd arloesol a dychmygus.

Astudiaeth Achos: Cynorthwyo Dysgwyr Hyn i fynd ar-lein

Y mae Gwasanaeth Llyfrgell Rhondda Cynon Taf wedi bidio'n llwyddiannus i CyMAL am grant i brynu cyfrifiaduron pen-glin ac i gyflogi tiwtoriaid allgymorth TGCh arbenigol i ymweld ag unedau llety cysgodol yn y bwrdeistref sirol. Y nod oedd dysgu preswylwyr sut i ddefnyddio cyfrifiaduron a chael mynediad i'r Rhyngrwyd.

I gyd, y mae 26 o complecsau llety yn cymryd rhan yn y prosiect, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu i gynulleidfa rhwng 70 a 93 oed. Y mae'r hyfforddiant yn cynnwys cymorth i breswylwyr fedru gwneud y mwyaf o'r cyfleusterau ar-lein presennol fel gwefan Rhondda Cynon Taf, gwefan y Gwasanaeth Llyfrgell (gan gynnwys catalog y llyfrgell), cronfa ddata o wybodaeth gymunedol ac archif helaeth o ffotograffau digidol.

Bu'r prosiect hwn yn llwyddiant ysgubol sy'n dangos nad oes raid i oed fod yn rhwystr i ddefnyddio TGCh. "Yr ydym yn mwynhau ein dwy awr yr wythnos ar y cyfrifiaduron. Yr unig beth yw bod amser yn hedfan a byddem yn hoffi cael dwy awr y dydd," meddai Sylvia Farmer o Dyllas Court, Porth. "Erbyn hyn rwy'n swian wrth fy merch a fy mab-yng-nghyfraith i adael i mi ddefnyddio eu cyfrifiadur – neu i brynu un i mi fel anrheg Nadolig!"

• Darparu mynediad am ddim i adnoddau llyfrgell yng Nghymru

- 4.9** Y mae gwasanaethau llyfrgell yn cadw'r cryfderau traddodiadol sydd bellach angen eu diwygio i gwrdd ag anghenion pobl yn y 21ain ganrif. Bydd @ **Eich Llyfrgell Chi** yn annog llyfrgelloedd i:

- barhau i ddarparu mynediad am ddim i ddeunydd darllen i bawb, a hyrwyddo llythrennedd drwy wasanaeth sy'n gymdeithasol gynhwysol
- darparu mynediad am ddim i'r Rhyngrwyd a helpu defnyddwyr i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein sy'n dod yn gynyddol fwy cymhleth, a thrwy hynny'n annog "llythrennedd gwybodaeth" ymhlith defnyddwyr
- cynnal a datblygu'r cymorth a roddir i wasanaethau dysgu gan gynnwys ceisiadau di-dâl am lyfrau a chylchgronau lle bynnag bosibl

- 4.8** There are many exciting opportunities to attract new users to library services and to extend the use made of services by existing users. Projects funded in 2004 include a highly successful basic ICT course for older people living in sheltered accommodation in Rhondda Cynon Taff. Specialist software has transformed library use for users with sensory impairments in Merthyr Tydfil libraries. The **@ Your Library Programme** will support all libraries to extend their activities in innovative and imaginative ways.

Case Study: Older learners are assisted to get on-line

Rhondda Cynon Taff Library Service bid successfully to CyMAL for a grant to purchase laptop computers and employ specialist ICT outreach tutors to visit sheltered accommodation units within the county borough. The aim was to teach residents how to use computers and access the Internet.

A total of 26 complexes are participating in this project, with training being delivered to an audience aged between 70 and 93. The training includes help for residents to make the most of existing online facilities such as the Rhondda Cynon Taff web site, the Library Service web site (including the library's catalogue), the community information database and a comprehensive digital photographic archive.

This project has been very well received by users and underlines the fact that age need not be a barrier to using ICT. "We all really enjoy our two hours a week on the computers. The only thing is, the time flies and we wish it was two hours a day," says Sylvia Farmer from Dyllas Court, Porth. "I'm now pestering my daughter and son-in-law to let me use their computer - or buy me one for Christmas!"

- **Providing free access to Welsh library resources**

- 4.9** Library services retain traditional strengths which now need to be refined to be fit for the needs of today. The **@ Your Library Programme** will encourage libraries:

- to continue to provide free access to reading material for all, promoting literacy in a socially inclusive service
- to provide free access to the Internet and to help users navigate increasingly complicated on-line services, encouraging 'information literacy'
- to maintain and develop support for learning activities including free requests for books and journals where possible
- to maintain and develop impartial information services with referral provided to additional sources of help and support
- to develop specialist services for users with individual access needs
- to lead in developing community information services supporting local organisations and community activities.

- cynnal a datblygu gwasanaethau gwybodaeth di-duedd gan gyfeirio pobl at ffynonellau ychwanegol o gymorth a chefnogaeth
- datblygu gwasanaethau arbenigol i ddefnyddwyr gydag anghenion unigol
- arwain ar ddatblygu gwasanaethau gwybodaeth yn y gymuned drwy gefnogi mudiadau lleol a gweithgareddau cymunedol.

Astudiaeth Achos 4: Syrffio diogel i bobl ifanc

Y mae llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn darparu mynediad am ddim i gyfleusterau cyfrifiadurol, gan gynnwys mynediad am ddim i'r Rhyngwrwd. Profodd hyn i fod yn hynod lwyddiannus gyda denu pobl ifanc yn ôl i lyfrgelloedd. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, y bu'r cyfryngau yn llawn o straeon am bobl ifanc yn cael anhawster gyda defnyddio'r Rhyngwrwd, o ystafelloedd sgwrsio i wefannau camarweiniol.

Y mae Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, drwy weithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn, wedi bidio'n llwyddiannus am grant CyMAL i gynhyrchu pecyn gwybodaeth dwyieithog i helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'r Rhyngwrwd, gan gynnwys:

- dull strwythuredig at ddatblygu sgiliau TGCh a Rhyngwrwd
- sut i reoli'r amser sy'n cael ei dreulio ar-lein yn effeithiol
- hybu mynediad at wefannau newydd lle sicrheir eu hansawdd
- gwneud defnydd mwy effeithiol o lyfrgell cyhoeddus
- tynnu sylw at faterion diogelwch personol.

Bydd y pecyn gwybodaeth ar gael drwy'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu yng Nghymru.

• **Creu'r gwasanaeth llyfrgell ar-lein**

4.10 Y mae'r gwasanaeth llyfrgell ar-lein yn elfen hanfodol yn y fenter **@ Eich Llyfrgell Chi**. Bydd darparu gwasanaethau ar-lein drwy wefan y llyfrgell yn ehangu mynediad at adnoddau llyfrgell ac yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Yn 2002, penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad dreialu mynediad ar-lein i dros 100 o gyfeirlyfrau wedi eu cyhoeddi gan Oxford Reference Online i holl aelodau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, ar gael yn y llyfrgell, y cartref, yr ysgol a'r gweithle. Y mae'r datblygiad arloesol hwn yn cynrychioli'r math o fenter gydweithredol y byddwn yn ei dilyn i gefnogi darparu gwasanaethau gwybodaeth electronig effeithiol a chost-effeithiol i bawb.

4.11 Bydd datblygu deunydd ar-lein dwyieithog, deniadol a llawn gwybodaeth am Gymru wrth wraidd y fenter hon. Bydd CyMAL yn gweithio gyda'r Llyfrgell Genedlaethol i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyfeiriol ar-lein wedi eu cysylltu i *Cymru ar y We* (gweffannau Cymreig dilys) ac *Ask Cymru* (gwasanaeth holi ar-lein a ddarperir gan wasanaethau llyfrgell yng Nghymru). Bydd y fenter hefyd yn cefnogi gweithgareddau fydd yn:

Case Study 4: Safe surfing for young people

Public libraries in Wales provide free access to computer facilities including access to the Internet. This has proved extremely successful in attracting young people back into libraries. However in recent years the media has been full of stories about young people encountering problems when using the Internet, ranging from chat rooms to misleading websites.

Gwynedd Library Service, working in partnership with Ynys Môn Library Service successfully bid for a CyMAL grant to produce a bilingual information pack which helps young people to make the best use of the Internet including:

- a structured approach to develop ICT and Internet skills
- the effective management of time spent online
- promoting access to new quality assured websites
- using the public library more effectively
- highlighting personal safety issues.

The information pack will be made available via the National Grid for Learning in Wales.

- **Creating the online library service**

4.10 The online library service is an essential element of the **@ Your Library Programme**. Delivering services online via the library website will effectively extend access to library resources and reach new audiences. In 2002, the Welsh Assembly Government piloted online access to over 100 reference books published by Oxford Reference Online for all Welsh public library members, available in the library, the home, the school and the workplace. This innovative development represents the type of collaborative procurement which will be pursued to support more efficient and cost-effective electronic information services for all.

4.11 Developing attractive and informative online bilingual content relating to Wales will underpin the initiative. CyMAL will work with the National Library of Wales to develop a national strategy for online reference services linked to *Wales on the Web* (validated websites relating to Wales) and *Ask Cymru* (an online enquiry service provided by Welsh library services). The initiative will also support activities which:

- provide access to online Welsh library catalogues
- provide links to *Gathering the Jewels* and other digitised materials of Welsh interest
- provide access to online community information sources

- darparu mynediad at gatalogau llyfrgell ar-lein yng Nghymru
- cysylltu i Casglu'r Tlysau a deunyddiau digidol eraill o ddiddordeb Cymreig
- darparu mynediad at ffynonellau gwybodaeth ar-lein cymunedol
- darparu mynediad at wasanaethau e-lywodraeth wedi eu darparu gan awdurdodau lleol
- darparu gwasanaethau cymorth e-ddysgu i ddysgwyr.

Bydd Cymru yn ceisio arwain ar weithredu polisïau arloesol i ddarparu mynediad at adnoddau llyfrgell a chyfoeth diwylliannol y genedl.

- **Gweithio mewn partneriaethau i ddarparu gwell gwasanaethau**

4.12 Y mae @ **Eich Llyfrgell Chi** yn bartneriaeth newydd sbon rhwng CyMAL a rhanddeiliaid allweddol i asesu pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth bresennol a gweithredu mesurau arloesol i wella gwasanaethau, wedi eu hanelu'n benodol at gynulleidfaoedd newydd. Y nod fydd hybu gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus sy'n berthnasol i anghenion pobl yn y 21ain ganrif. Bydd y bartneriaeth yn adennill rôl ganolog i wasanaethau llyfrgell fel rhan hanfodol o fywyd ein cymdeithas ac un sy'n hyblyg ac ymatebol i anghenion newidiol unigolion, teuluoedd a mudiadau lleol.

4.13 Y mae angen i'r dull gweithredu newydd hwn adlewyrchu partneriaeth strategol rhwng yr holl lyfrgelloedd Cymreig tra'n arwain at gynyddu mynediad at adnoddau llyfrgell i bawb yng Nghymru. Yn 2003, daeth Prifysgol Cymru Bangor yr un gyntaf yn y DU i agor ei hadnoddau i aelodau o lyfrgelloedd cyhoeddus fel rhan o'r fenter "LINC y Gogledd". Prosiect Pathfinder ar gyfer partneriaethau llyfrgell rhanbarthol eraill yw'r prosiect hwn. Bydd @ **Eich Llyfrgell Chi** yn herio partneriaethau llyfrgell i ddod o hyd i ffyrdd o weithio gyda'i gilydd i wella eu gwasanaethau, yn enwedig i gefnogi gweithgareddau dysgu gydol oes.

4.14 Bydd llyfrgelloedd hefyd yn cael eu herio i sefydlu partneriaethau effeithiol gyda gwasanaethau eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol yn ogystal â chan golegau lleol, y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, Cychwyn Cadarn, Dechrau Darllen, Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf, Partneriaethau Iechyd Lleol, Partneriaethau diwylliannol lleol a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc er mwyn ehangu mynediad at wasanaethau mewn cymunedau lleol.

